

Y Greadigaeth

Darlleniad: Salm 8

O! Dduw, creawdwr a chynhaliwr pob peth byw, trown atat yn awr i fyfyrion o'r newydd ar waith dy fysedd.

Diolchwn am y gallu i ryfeddu at brydferthwch a gogoniant y cread; ac i ryfeddu dy fod ti, O! Dduw, wedi ein creu ni, a'n creu ychydig is na'r angylion, a'n creu i fyw er gogoniant i'th enw.

Ategwn eiriau'r salmydd pan ddywed, 'Y mae dy weithredoedd yn rhyfeddol', a 'Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd, fe'u harchwiler gan bawb sy'n ymhyfrydu ynddynt'.

Wrth inni edrych drwy'r telesgop ar y sêr dirifedi yn y nen, ni allwn lai na rhyfeddu at fawredd ac ehangder dy waith. Ac wrth inni fyfyrion ar fanylder a bychander dy waith yn yr atom, ni allwn lai na rhyfeddu at dy ddoethineb ac ymhyfrydu ynddo:

'Fy Nuw, uwchlaw fy neall
Yw gwaith dy ddwylo i gyd;
Rhyfeddod annherfynol
Sydd ynddynt oll ynghyd;'

Gwelwn fod yna drefn berffaith a doethineb perffaith yn holl waith dy fysedd; ac 'Y mae dy holl waith yn foli . . . '

Ymunwn ninnau i'th foli a'th ogoneddu y dydd hwn am dy waith yn llunio'r greadigaeth. Dymunwn fynegi fel y salmydd:

'O Arglwydd, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear! Gosodaist dy ogoniant uwch y nefoedd . . . Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr, a roddaist yn eu lle, beth yw meidrolyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?'

Diolchwn i ti, O! Dad, am dy ofal tyner drosom. Diolchwn dy fod ti yn darparu at raid dynol-ryw yn ddi-ffael:

‘Tra pery’r ddaear,
ni pheidia pryd hau a medi, oerni a gwres,
haf a gaeaf, dydd a nos.’

Er ein ffaeleddau a’n gwendidau, diolchwn nad wyt ti, drugarocaf Dad, yn ymwrthod â’th gadwraeth a’th gynhaliaeth ohonom.

Fel dy greaduriaid, sylweddolwn ein dibyniaeth lwyr arnat ti, am ein bwyd a’n cynhaliaeth. Yn wir, ynot ti yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod. Er dy fod yn llawer mwy na’th greadigaeth, ac uwchben dy greadigaeth, eto yr wyt yng nghanol dy greadigaeth, yn llenwi’r nefoedd a’r ddaear, yn cynnal ac yn cadw holl waith dy fysedd, ac yn peri nad oes un aderyn yn syrthio heb i ti, O! Dad, wybod. Felly, dywedwn gyda’r emynydd:

‘Er dy fod yn uchder nefoedd,
Uwch cyrhaeddiad meddwl dyn,
Eto dy greaduriaid lleiaf
Sy’n dy olwg bob yr un;’

Ond wrth ddiolch am dy ofal trosom, a thros dy greaduriaid lleiaf, boed inni weld y cyfrifoldeb sydd wedi ei osod arnom fel stiwardiaid dy greadigaeth. Oblegid rhoist inni ‘awdurdod ar waith dy ddwylo’. Gresynwn nad ydym wedi defnyddio’r awdurdod hwn yn y modd gorau bob amser. Yn wir, yr ydym wedi camddefnyddio a difetha dy greadigaeth. Yr ydym wedi bod yn wastrafflyd a thrachwantus yn ein defnydd o adnoddau’r ddaear.

Gofynnwn am dy faddeuant am fethu yn y gorffennol, a nerth i gywiro ein ffyrdd i’r dyfodol. Boed i ni, yn unol â’th ewyllys, barchu a thrysori dy greadigaeth ym mhob ffordd bosib. Gofynnwn i ti ail- greu dy ddelw ynom fel y byddwn yn dy ogoneddu di fel stiwardiaid gwaith dy ddwylo.

I ti y bo’r gogoniant am ein creu, a’n hail greu yng Nghrist - yr hwn yw cyntaf-anedig yr holl greadigaeth. Amen.

Dewi Roberts